**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf MA/HIDCC/0057/26

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

22 Ionawr 2026

Annwyl Mike,

Hoffwn roi gwybod i'r Pwyllgor o'r bwriad i gydsynio, yn yr achos hwn, i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud a gosod Rheoliadau Pysgodfeydd Môr (Diwygio) 2026.

Bydd y Rheoliadau yn cael eu gwneud o dan adran 36(1)(b) ac (c) o Ddeddf Pysgodfeydd 2020 ac adran 15 o Ddeddf Cyfraith yr UE a Gedwir (Dirymu a Diwygio) 2023. Rheoliad y Cyngor (EU) 2020/123 sy'n pennu'r cyfleoedd ar gyfer 2020 i bysgota stociau pysgod a grwpiau o stociau pysgod penodol, sy'n gymwys i ddyfroedd yr Undeb ac, ar gyfer cychod pysgota'r Undeb, mewn dyfroedd penodol nad ydynt yn perthyn i'r Undeb.

Mae'r Rheoliadau yn gwneud addasiadau i lefel draenogod y môr Ewropeaidd y caniateir ei ddal o fewn terfynau pysgodfeydd Prydain, fel y nodir yn Erthygl 10(5) o Reoliad y Cyngor (EU) 2020/123, ar gyfer pysgodfeydd hamdden. Cynyddu nifer y pysgod y gellir eu cadw o ddau y dydd i dri. Mae'r Rheoliadau hefyd yn tynnu cŵn pigog wedi'u casglu o dros 100cm o'r rhestr o rywogaethau gwaharddedig a gynhwysir yn Erthygl 16 o Reoliad y Cyngor (EU) 2020/123.

Cytunwyd ar y newidiadau hyn yn ystod ymgynghoriadau pysgodfeydd diweddar yr UE yn y DU o dan fframwaith y cytundeb Masnach a Chydweithredu.

Yn unol ag adran 40 o Ddeddf Pysgodfeydd 2020, mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi cysylltu â Gweinidogion Cymru a'r Alban, a'r Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig yng Ngogledd Iwerddon am ganiatâd i wneud y Rheoliadau hyn.

Er mai egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai'r gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei gwneud a'i diwygio yng Nghymru, y tro hwn, ystyrir ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ar lefel y DU. Pwrpas y Rheoliadau yw gwneud mân ddiwygiadau technegol i ddeddfwriaeth bresennol sy'n cael ei chymhwyso ledled y DU, er

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

mwyn gweithredu rhwymedigaethau rhyngwladol y DU sy'n codi o ganlyniad i Ymgynghoriadau Pysgodfeydd blynyddol y DU-UE. Mae dull y DU gyfan o wneud y diwygiadau yn sicrhau gweithredu amserol a pharhad polisi, gan gynnig tegwch i bysgotwyr ledled y DU.

Nid oes gwahaniaeth polisi rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynghylch y mater hwn ac mae'r Rheoliadau'n diwygio deddfwriaeth na chafodd ei gwneud yn ddwyieithog.

Bydd y Rheoliadau yn cael eu gosod gerbron Senedd y DU ar 6 Ionawr.

Yn gywir



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs